Llais Y Derwent

Rhagfyr 2012 Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr Pris 25c

Cyfarchion y tymor!

Mae'r Calan Gaeaf wedi digwydd ac mae'r Nadolig yn agosáu, does dim llawer o amser ar ôl ar gyfer gwersi Cymraeg nac i brynu cardiau Cymraeg neu gardiau dwyieithog. Yng Nghymru mi fydd y plantos yn disgwyl yn eiddgar ar gyfer ymweliad Siôn Corn. Yma yng nghanolbarth Lloegr yr ydyn ni'n edrych ymlaen at Wasanaeth Carolau dwyieithog Cymry Nottingham, dyma gyfle i ganu ac i gymdeithasu'r yn yr hen iaith. Does dim o'r hen arferion Gwerinol fel y Mari Llwyd wedi goroesi fan hyn ond os ti wir eisiau dysgu am hyn mae'na dau lyfr addas sef *Tro Trwy'r Tymherau* gan Twm Eliais a *Llen Werin T. Lew Jones*. Y ddau lyfr yn son am Wyliau Celtaidd a'r hen traddodiadol werinol oedd dal i fodoli yn y ganrif diweddaf draw yng Nghymru. Yn rhyfeddol mae rhai o'r hen bethau yma fel y Mari Llwyd a'r Plygain dal i fynd yng Nghymru fach.

Mae'r Dydd Calan yn dod ar ein traws ni yn gyflym iawn ar ôl Nadolig ac un o'r hen draddodiadau yn ystod y cyfnod yma o'r flwyddyn yw gwneud rhai addewidion blwyddyn newydd. Beth amdani felly? Gwneud addewid i wella eich Cymraeg eleni? Beth am fynd draw i Nant Gwrtheyrn ar gyfer cwrs penwythnos neu wythnos breswyl? Neu beth am ddechrau mynychu rhai o gyfarfodydd Cymdeithas Cymry Nottingham neu Gymdeithas Derby? Neu hyd yn oed yn well beth am fynd i Fore Coffi Nottingham Popeth yn Gymraeg am y tro Cyntaf? Mae angen cefnogaeth ar bopeth sy'n cael ei drefnu gan aelodau gweithgar y cymdeithasau Cymraeg a Chymreig yn Lloegr.

Yn olaf gadewch i mi ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd da i bob un ohonoch chi!

Cerddoriaeth .... a fi

Cefais fy ngeni yn Lerpwl a dysgodd fy rhieni i mi siarad Cymraeg. Cefais fy magu yn Lerpwl yn ystod y 60au ac roeddwn wedi fy amgylchynu gan yr holl synau 'newydd' oedd yn dod i'r amlwg, Chuck Berry, y blues, ac wrth gwrs, Y Beatles! Ond, roeddwn bob amser gyda diddordeb mewn cerddoriaeth. Roedd gan Nain biano yn yr ystafell ffrynt - ystafell lle yr oeddwn yn meddwl mai dim ond ar y Sul oedd rhywun yn mynd iddi! Wrth gwrs, roeddwn yn chwarae'r piano, ond yn amlwg nid oedd gennyf unrhyw dalent naturiol oherwydd ni ddaeth dim ohono. Mae'n rhaid bod Dad wedi sylweddoli fod gennyf rywfaint o ddiddordeb mewn cerddoriaeth gan iddo ddod ac organ geg o'i wyliau beic modur gyda mam yn y Swistir pan oeddwn yn saith oed. Ni ddigwyddodd dim mewn gwirionedd yn gerddorol nes i mi fynd i'r ysgol uwchradd lle yr oedd bron pawb yn fy nosbarth yn chwarae offeryn, doeddech yn neb os nad oeddech yn gallu chwarae cord neu ddau. Y peth braf oedd bod bron pawb mor barod i rannu cordiau newydd, caneuon, riffs a hyd yn oed yn gadael i chi chwarae eu gitâr.

Dad ddaeth adref efo fy ngitâr gyntaf, credaf nad oedd rhywun o'r gwaith ddim ei heisiau a'i rhoi iddo. Wrth edrych yn ôl yr oedd bron yn amhosib ei chwarae, ond fe ymdrechais hyd nes oedd fy mysedd yn gwaedu. Cyn gynted ag y gallwn dechreuais edrych am waith, rowndiau papur, rowndiau llefrith ac yn y diwedd cael swydd dydd Sadwrn yn Littlewoods. O fewn amser roedd gennyf ychydig o arian wedi ei gasglu, ac fe wnes i brynu fy ngitâr gyntaf a llyfr cyfarwyddyd yn 1966 - un Egmond ac yn costio ychydig o dan £10! Help mawr yn fy natblygiad oedd bod fy ffrind gorau, Will, wedi prynu un ar yr un pryd felly roeddem yn dysgu gyda'n gilydd. Roedd fy nhad yn ceisio canu 'Bobby Shaftoe' a finnau yn chwarae'r cordiau.

Fe wnaethom ffurfio ein 'band' ac roedd ein gig gyntaf mewn Clwb Ieuenctid yn 1967. Roedd Will yn athrylith gydag electroneg - roedd yn arfer adeiladu ei radio ei hun i fynd ar wyliau. Fe addasodd amplfier fel y gallai dwy gitâr, gitâr bas a llais i gyd gael eu plygio i mewn i'r amp. Roeddem

yn cario'r holl offer ar y bws i'r gig, roeddem mor nerfus. Cawsom hanner awr o amser i ganu a pherfformiwyd deg cân. Ni allaf ddychmygu heddiw beth oeddem yn swnio fel. Beth bynnag, fe gawsom chwe cheiniog yr un ar gyfer ein tocyn bws gartref, roeddem yn falch iawn gyda ni ein hunain. Mae'r gweddill, mae'n debyg, yn hanes fel maen nhw'n ddweud. Cerddoriaeth yn parhau i fod, ac yn dal yn rhan arwyddocaol iawn o'n bywydau. Bu i mi gyfarfod a phriodi Linda, cerddor arbennig, yr union beth yr oeddwn ei angen ar gyfer fy mand, bron i ddeugain mlynedd yn ôl.

Cafodd fy merch Helen ei gig gyntaf gyda ni pan oedd yn chwech oed: roedd yn Trent Bridge i gymdeithas y Cymry yn Nottingham. Gwnaeth ein ffrind Sam, a laddwyd yn drasig mewn damwain car ychydig flynyddoedd yn ôl, recordiad tâp o'r digwyddiad - a elwir yn syml 'Live at Trent Bridge'

Erbyn hyn, yr wyf yn chwarae gitâr bas mewn band roc a rôl o'r enw The Ruins a byddaf i a Linda yn mynd allan i agor mics, gigs ac i unrhyw le sy'n cynnig cerddoriaeth fyw. Gallwch weld ni ar Youtube - john8linda, neu gallwch ymweld â'n gwefan-. www.john-linda co.uk

John Williams

Dysgu’r Gymraeg

BETH sy'n ysbrydoli pobl i ddysgu Cymraeg? Dw i'n siŵr bod pawb sy'n dysgu'r hen iaith wedi cael eu gofyn y cwestiwn: 'Pam ydych chi'n dysgu Cymraeg?' Wrth gwrs, mae 'na lawer o resymau. Er hynny, dw i'n credu bod y rheswm mwyaf cyffredin yw 'teulu pell' a 'gwreiddiau'. Mae gan nifer mawr o ddysgwyr yn Lloegr gysylltiadau a Chymru neu cawson nhw eu magu yng Nghymru mewn teulu di-gymraeg. Mae gan rhai pobl rhieni Cymraeg, ond wnaeth y rhieni ddim pasio'r iaith ymlaen iddyn nhw. Dyma sefyllfa dorcalonnus achos bod rhai o'r' dysgwyr yma'n teimlo eu bod nhw wedi cael eu twyllo; maen nhw wedi colli'r cysylltiad gyda'u treftadaeth nhw. Efallai bod yr unig ffordd o gysylltu â'r dreftadaeth 'ma yw trwy ddysgu Cymraeg.

Roedd fy nghymhelliant yn wahanol, mae'n debyg. Yn ôl yn 2005, roeddwn i'n edrych am syniadau o ran gwyliau haf. Yn y pen draw, mi benderfynais i fynd i Gymru gyda phabell ac yn aros ar wersyllfa ger Beddgelert. Mi dreulion ni'r wythnos yn cerdded ymhlith y mynyddoedd uwchben Beddgelert a Rhyd Ddu. Mi ddringon ni ychydig o fynyddoedd gan gynnwys Moel Hebog, Moel yr Ogof, Moel Lefn a Mynydd Mawr. Dw i'n credu yr oedden ni'n dringo Yr Aran, ger Yr Wyddfa yn ystod yr wythnos 'na hefyd.

Mae'na 190 mynyddoedd swyddogol yng Nghymru a rhwng 2005-2010, mi ddringon ni 188 ohonyn nhw. Dim ond dau sy ar ôl! Yn ystod yr wythnos yn 2005, mi wnes i ymddiddori yn yr enwau ar y mapau Arolwg Ordnans; enwau'r afonydd, nentydd, bryniau, llwybrau, coedwigoedd a nodweddion eraill yn y tirlun. Mi wnaeth hyn danio fy niddordeb yn yr iaith Gymraeg. Mewn gwirionedd, o'n i byth yn meddwl y baswn i'n dechrau dysgu Cymraeg o gwbl, nes i fi ddechrau ym mis Mawrth y llynedd! Mae gen i ddiddordeb yn y cefn gwlad yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru, ond dw i wedi bod arbennig o awyddus i ddysgu mwy am gefn gwlad Cymru trwy'r Gymraeg. Mae'r process dysgu'ma wedi cael ei gyfoethogi oherwydd defnydd yr iaith Gymraeg.

Mae dringo mynyddoedd yn waith caled, heb os nac oni bai, ond mae'n werth yr ymdrech. Mae'r un athroniaeth yn berthnasol o ran dysgu Cymraeg. Nawr’ te, pryd bydda i'n dringo'r ddau fynydd olaf 'ma?

Martin Coleman

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Ydych chi am gymryd rhan mewn
Gweithgareddau Cymraeg a Chymreig?
Mae’r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby
eisiau trefnu Noson Lawen i Ddysgwyr
a Chymry Cymraeg Swydd Derby a
Swydd Nottingham yn ystod 2013.
Cysylltwch â Jonathan ar 01773 827513.

Am fanylion pellach ynglŷn â gweithgareddau
Cylch Dysgwyr Cymraeg ewch i’n gwefan ni

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

Bore Coffi Popeth yn Gymraeg

Mae aelodau o’r Bore Coffi Popeth
yn Gymraeg Nottingham eisiau trefnu
Cystadleuaeth Scrabble Cymraeg
cysylltwch â Gwynne ar 0115 925 9613

Mynd am dro

Dw i erioed wedi mwynhau mynd am dro; ond heddiw, a bod yn onest, yr oedd fy nhro braidd yn fyr oherwydd bod y tywydd yn ddiflas gyda niwl a glaw mân.

Ond rhaid i mi beidio â chwyno gan fod bob prynhawn dros yr wythnos diweddaf yn hynod ddymunol, gydag ambell machlud yr haul hudolus. Am wefr echnos pan oedd yr awyr orllewinol yn wenfflam o liwiau cochion!

Mae'na sawl tro sy'n aros yn fy nghof ond mae'n amhosib dewis un fel ffefryn. Serch hynny, cofiaf un sy'n agos at y brig, a hynny yw dilyn ôl traed Glanffrwd, bardd ac awdur Morgannwg William Thomos 1843 -1890, ar hyd un o'r nentydd cymoedd glo de Cymru. Ces i fy ngeni ar fferm yn agos lle mae'r nant yn ymuno ag afon Clydach a threuliais oriau bwygilydd fel bachgen yn chwarae yno.

Rhaid bod rhyw arbenigrwydd yn perthyn i'r nant i fod yn deilwng o'r enw Ffrwd; enw cyffredin yw ffrwd am unrhyw gornant bychan ond enw priodol yr afon fechan yma yw '**y Ffrwd**'!

Dewch gyda fi am dro sy'n dilyn y Ffrwd i lawr ar hyd ei gyrfa fer, garlamus, wyllt wrth wrando ar rai disgrifiadau Glanffrwd o'i hynt: - "Disgyn hi o Fynydd Gwyngul heibio i droed Melin-y-cwrt i lawr i Gwm Downs trwy le cul, cyfyng, a golwg lled ddieithriol. Mor unig, mor ddigyffro er bod yno wylltineb ar wedd anian. Ochr ceulan y Mynachdy, a llethr goediog Coetgae-y-Fanhalog yn bwrw ei chysgodion ar Ffrwd, ac yn ei chadw i lawr yn y tywyllni wrth ei draed i weithio ei ffordd trwy'r mieri, a'r drain a'r drysni. Ac yn ewynnu'n lled gynhyrfus yn y trobyllau yma a thraw, a cholli ei thymer wrth amgylchu ambell hen garreg fawr, neu ruthro dros ei phen, ac yna yn disgyn gydag ysbonc i ddwfn-bant. A ffwrdd a hi trwy hen olchfa Mynachdy gan furmur cerdd dan frig y derw, a llonni tipyn dim ond i sudda yn dipyn o bruddglwyf o dan Darren y Glwyd Drom a'r hen Goeden Fawr dan lwyth o iorwg yn ysgwyd ei breichiau bygythiol uwchben y dŵr. Oddi yma heibio i Ffynnon Illtud, a thrwy olchfa Buarth-y-capel, a Chwmfelin ar ei phen i Bwll-y-crochan, lle y berwa yn gyffrous o dan un o'r meini mwyaf yn y wlad; ac yna o dan Bont y Felin, a rhoddi benthyg tipyn o ddŵr i droi'r rhod, neidia yn orwyllt fel gorffwylldyn yn bloeddio wrth ysboncio dros y graig i lawr i Bwll y Felin, a ffwrdd a hi yn llidiog a digofus heibio i'r Efail gan ymwylltio tipyn o flaen Aberffrwd, ac yna yn sydyn llycir hi ar un traflwnc gan Afon Clydach!"

John Vivian Harris

Bywyd Blodwen Jones

Dw i newydd orffen darllen 'Bywyd Blodwen Jones' gan Bethan Gwanas, llyfr hawdd ar gyfer dechreuwyr Cymraeg. Mae hi'n stori am Blodwen, merch sy dim yn ifanc ac sy'n byw yng Nghymru. Mae hi'n sengl ac mae hi'n gweithio mewn llyfrgell.

Dydy hi ddim yn hoffi ei swydd hi oherwydd mae'r swydd yn ddiflas a hefyd achos mae hi'n gweithio gyda Gwen a dydy Gwen ddim yn gyfeillgar. Mae Blodwen yn dysgu Cymraeg mewn dosbarth nos. Mae hi eisiau gwella ei hiaith hi, felly mae hi'n trio siarad Cymraeg yn y llyfrgell achos mae Gwen yn siarad Cymraeg yn rugl. Yn anffodus dydy hi byth yn siarad Cymraeg gyda Blodwen achos weithiau dydy Blodwen ddim yn deall neu dydy hi ddim yn gallu cofio gair. Mae Blodwen yn ddwli ar ei thiwtor hi yn y dosbarth, sef Llew 'hyfryd hyfryd' Morgan. Mae Blodwen yn 38 oed ac mae hi eisiau cariad!

Mae'r llyfr yn ddiddorol iawn ac yn ddoniol iawn hefyd. Dych chi'n darllen am anturiaethau Blodwen gyda'i chath a'i gafr Blodeuwedd.

Os dych chi eisiau darllen llyfr sy dim yn anodd rhaid i chi brynu Bywyd Blodwen Jones - byddwch chi fwynhau'r stori a byddwch chi'n dysgu geiriau newydd hefyd.

Glen Mulliner
(Belper Welsh Group)

Cymdeithas Cymry Nottingham

Cyfarfod Cymdeithasol Misol i Gymry Alltud

Am fanylion cysylltwch a

Gwynne Davies

ar 0115 925 9613

Caerdydd drwy'r canrifoedd

Yn ystod y gwyliau hanner tymor penderfynais i fynd i Gaerdydd. Mae diddordeb mawr gyda fi mewn hanes Prydain, felly amgueddfa 'Stori Caerdydd" yn yr hen lyfrgell ger neuadd Dewi Sant roedd fy 'stop cyntaf' i. Mae'r Cyngor Caerdydd wedi creu'r amgueddfa a chafodd ei datblygu ar y cyd â phobl y brifddinas.
Mae'n lle gwych i ddarganfod hanes a threftadaeth y ddinas. Caiff ei horiel ***Ymdeimlad o Gaerdydd*** ei rhannu yn dri pharth, pob un yn archwilio agwedd wahanol ar stori Caerdydd.

Mae **Porthladd o Bwysigrwydd** yn egluro pam y gwnaeth pobl ymgartrefu yng Nghaerdydd a sut cafodd eu cymunedau eu datblygu. Mae **Caerdydd yn Newid** yn dangos sut mae'r ddinas heddiw wedi'i siapio dros amser. Mae **Bywydau Gwaith** yn archwilio sut mae pobl Caerdydd wedi gwneud eu bywoliaeth dros amser, o'r tir a'r môr, i ddiwydiant a diwydiannau gwasanaeth heddiw.

Gadewch i ni fynd ar daith i ddarganfod Caerdydd gyda'n gilydd...

Tua 4000 CC croesodd y mudwyr Neolithig cyntaf o dde Prydain i mewn i Forgannwg. Gan ei fod yn cael ei ddyfrio gan dair afon - Afon Rhymni i'r dwyrain, Afon Taf yn y canol ac Afon Elai i'r gorllewin - roedd y tir yn gorslyd ac yn ddyfrlawn. Felly nid yw'n syndod bod y gwladychwyr cynnar hyn wedi osgoi safle prifddinas Cymru'r dyfodol.
Bro Morgannwg a'i thiroedd ffrwythlon oedd yn eu denu...ac mae'r *offer* yr ydyn ni wedi'u canfod yn dangos sut aethon nhw ati i ffrwyno'r tir gwyllt. Mae cyllyll, llifiau a chrymanau fflint wedi cael eu darganfod yn Sain Fagan, yn Nhrelái ac yn y Fro.

Yn 55oc adeiladodd y Rhufeiniaid caer ar Afon Taf, ac yn araf ac yn raddol datblygodd porthladd yn agos i'r tair afon ac i'r môr. Nid adeiladodd Gwilym y Concwerwr castell yma ar ôl y deyrnas Morgannwg ddod yn gadarn o dan awdurdod yr arglwydd Normaniaid Robert Fithammo. Lle di-nod roedd Caerdydd yn strategol, ac annhebyg roedd gwrthwynebiad yn yr ardal hon.

Cymaint oedd pwysigrwydd y porthladd nes i'r Brenin Edward III roi statws "prif borthladd" iddo yn 1327. Dim ond tri phrif borthladd a ganiatawyd i fasnachu mewn nwyddau fel gwin, gwlân a lledr - oedd yng Nghymru gyfan.

Yn 1794 cafodd Camlas Sir Forgannwg ei hagor yn cysylltu Merthyr a Chaerdydd yn dod â haearn i Gaerdydd i'w allforio. Cyn y 1770au roedd ceffylau pwn yn cludo haearn yn cael eu tywys ar hyd llwybrau anwastad o Ferthyr i Gaerdydd. Roedd pob ceffyl yn gallu cludo tua 100 cilogram. Roedd un cwch o'i thynnu gan un ceffyl yn gallu cludo hyd at 25 tunnell i'r porthladd.

Gyda'r bwriad o gynyddu ei gyfoeth drwy allforio haearn a glo, comisiynodd ail Arglwydd Bute doc *maen* cyntaf Caerdydd. Agorodd yn 1839, pan roedd allforio glo o Gaerdydd yn fwy na allforio haearn. Arweiniodd hyn at agoriad Rheilffordd Dyffryn Taf yn 1841. Dargyfeiriodd Brunel Afon Taf i adeiladu Rheilffordd De Cymru cyn iddo fe gafodd ei hagor yn 1850. Roedd trawsnewidiad dramatig yn digwydd, yng nghanol gweiddi "Pŵer Stêm"
Roedd glo o De Cymru yn cael ei ystyried fel y glo gorau yn y byd i gynhyrchu ager. Roedd y galw cyson am y glo hwn yn golygu bod Dociau Caerdydd wastad yn brysur. Yn 1891 roedd Caerdydd yn allforio 708,000 o dunelli o lo.

Wrth i longau dyfu'n fwy daeth angen am ddociau mwy a dyfnach. Roedd agor Doc y Frenhines Alexandra y 1907 yn sicrhau bod Dociau Caerdydd yn dal yn addas. Yn anterth y porthladd yn 1913, allforiwyd 10.5 miliwn tunnel o lo o Gaerdydd.

Wrth i fwy o'r byd ddewis olew, yn hytrach na glo fel tanwydd, collodd y dociau eu prif fusnes. Aeth y lle ar ei waered.

Pan oedd y dociau ar eu hanterth, dim ond yn ystod llanw uchel y gallai llongau hwylio o Fôr Hafren i mewn i Gaerdydd. Yn ystod llanw isel dim ond gwastadau o fwd oedd yno.

Mae tri doc gweithredol yng Nghaerdydd o hyd. Mae'r rhai o'r hen dociau wedi eu trawsffurfio a bellach yn llefydd hamdden a thwristiaeth, ac o ganlyniad i adeiladu'r Morglawdd Bae Gaerdydd, sy'n ymestyn ar draws ceg Bae Caerdydd o'r Dociau Caerdydd i Benarth, trodd yr ardal i mewn i lyn dwr croyw parhaol.

Daeth cyfleoedd i weithio ar y rheilffyrdd a'r dociau ar waith adeiladau ac mewn siopau, swyddfeydd a gwestai yn sgil y diwydiannau haearn a glo. Yn 1851 roedd poblogaeth Caerdydd yn 20,000 ond erbyn 1911 roedd yn 182,000. Wrth i fwy o bobl symud i Gaerdydd i weithio roedd angen mwy o dai ar eu cyfer. Roedd amodau byw a gorboblogi yn erchyll mewn rhai rhannau o'r dref. Oherwydd y galw am gartrefi newydd adeiladwyd tai ar dir ffermio a thir corsiog Caerdydd. Roedd rhai o'r tai Fictoraidd yng nghanol y ddinas yn frwnt iawn ac wedi ei gorlenwi, ac o'r herwydd roedd clefydau fel colera yn lledu'n hawdd.

Wrth i'r diwydiannau trymion ddirwyn i ben llanwyd y bwlch gan y sector gwasanaethau. Erbyn hyn, prif gyflogwyr y ddinas yw masnach, twristiaeth, gofal iechyd, y prifysgolion, y cyfryngau a'r sector ariannol.

Fe argymhella i *Stori Caerdydd* i bawb. Mae'r staff amgueddfa yn ddefnyddiol ac yn gyfeillgar iawn. Cyn gadael y ddinas, nes i gymryd bws i'r Senedd - Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r caffi'r Senedd yn lle delfrydol i fwynhau te'r prynhawn wrth edrych ar y golygfeydd gwych dros Faes Caerdydd. Roedd y sgon ac ati wedi gweini ar lechi trwchus. A doedd dim ots gyda fi eu bod yn dod efo menyn Gwyddelig...mor hapus ro'n i.

Adrian Howells

Say Something In Welsh
Become a Welsh speaker - join the world's largest class!

FIND OUT WHY OVER 15,000 PEOPLE USE OUR AWARD-WINNING COURSE

You don't need to read or write or do any revision - you just start speaking normally and naturally from the very beginning. But we don't expect you to take our word for it!

Listen to the first lesson right here, right now - either the northern or the southern version - and if you like it, you can access another 25 half-hour lessons for free

go to website www.saysomethinginwelsh.com